COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
Dyfed-Powys
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI102

Amseru: Arferol

Teitl: Sefydlu Fforwm Ieuenctid y Comisiynydd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu

Crynodeb Gweithredol:
Mae'r Comisiynydd wastad wedi bod yn frwdfrydig o ran ymgysylltu â phobl ifanc ac mae wedi croesawu pob cyfle i wneud hynny. Ar ôl ymgynghori'n eang â phobl ifanc a phartneriaid y maes ieuenctid yn ystod 2018, y nod yw lansio Fforwm Ieuenctid cyntaf erioed Heddlu Dyfed-Powys ym mis Rhagfyr 2018. Bydd y fforwm ieuenctid yn cynnwys llysgenhadon ifanc 11-18 oed, sef y brif ddolen gyswllt ffurfiol rhwng pobl ifanc Dyfed-Powys a'r Comisiynydd, a fydd yn llywio cyfeiriad cyffredinol rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc y Comisiynydd. Bydd y Llysgenhadon Ifanc ar y Fforwm yn ymgymryd â'r rolau canlynol:

1. cynrychioli llais pobl ifanc ar faterion plismona a throseddu mewn digwyddiadau/cyfarfodydd y Fforwm;
2. bod yn llais i'r Comisiynydd Heddlu a throsedd ar lawr gwlad ac i fwydo i mewn i waith Swyddfa'r Comisiynydd.

Bydd y fforwm ieuenctid yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau gwahanol ar draws y rhanbarth. Bydd y fforwm ieuenctid yn un rhan o'r dull ymgysylltu â phobl ifanc, a fydd yn cynnwys:

a) Fforwm Ieuenctid Dyfed-Powys, i gynnwys llysgenhadon ifanc
b) gweithio mewn partneriaeth â grwpiau ieuenctid presennol ac ysgolion/colegau ar lawr gwlad
c) cyrraedd yr anoddaf i'w cyrraedd

Argymhelliad:
Sefydlu Fforwm Ieuenctid cyntaf y Comisiynydd a datblygu rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/1/2019